Awgrymiadau Defnyddiol 1

Datblygiad Iaith
Nodi anhawster/nam posibl
Pryd y dylech bryderu

Gall fod yn anodd gwybod a oes gan blant nam ar y lleferydd ac iaith, gan nad ydynt yn *edrych* yn wahanol i blant eraill, ac nid yw eu lleferydd o reidrwydd yn amlwg o anarferol. *Gallai* plentyn ag unrhyw un o'r anawsterau a restrir isod fod â nam ar y lleferydd ac iaith, a dylid archwilio'r posibilrwydd hwn.

Genedigaeth - 1 Oed
- Diffyg cyswllt llygaid.
- Gwneud synau yn anaml neu ddim o gwbl.
- Nid yw'r plentyn yn ymateb i sŵn, sgwrsio, er nad oes anawsterau clywed i'w gweld.

1-2 Oed
- Nid yw eu lleferydd yn datblygu llawer, os o gwbl.
- Diffyg dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei ddweud.
- Sgiliau gwrando gwael - ymddengys nad ydynt yn clywed neu'n talu sylw.
- Diffyg chwarae arferol ar gyfer eu hoedran.

2-3 Oed
- Rhwystredigaeth - strancio.
- Swil *iawn*.
- Diffyg cyswllt llygaid.
- Ddim yn siarad llawer, os o gwbl.

3-5 Oed
- Diffyg o ran sgiliau siarad a chwarae.
- Diffyg dealltwriaeth o ran cymryd eu tro ac felly'n meithrin sgiliau cymdeithasol yn araf.
- Sgiliau odli gwan.
- Anawsterau cydsymud e.e. clymu eu careiau.

5 Oed a throsodd
- Anawsterau dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- Sgiliau cymdeithasol gwael - felly nid oes ganddynt lawer o ffrindiau ac maent yn treulio amser ar eu pen eu hunain.
- Efallai bod anawsterau lleferydd amlwg wedi cael eu goresgyn, ond.
- Anawsterau darllen - yn amlwg yn 7 oed yn enwedig.
- Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.
- Anawsterau gyda gemau geiriau e.e. Rwy'n gweld gyda fy llygad bach i.

Afasic Cymru
Ystafell 203
Tŷ Titan
Canolfan Fusnes Bae Caerdydd
Heol Lewis
Ocean Park
Caerdydd CF24 5BS

Ffôn: 029 2046 5854
Ffacs: 029 2046 5861
Llinell gymorth: 08453 55 55 77
E-bost: jeannette@afasiccymru.org.uk
www.afasiccymru.org uk

Afasic Cymru